

Â phwy y gallwch chi siarad?

Yn ogystal â'r tîm pontio, mae llawer o gymorth a gwybodaeth bellach ar gael. Dyma rai ohonynt isod:

PAVS - Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro

Stryd Fawr
Hwlfordd
01437 769422

Mencap **030 333 111**

neu e-bostiwch mencapdirect@mencap.org.uk

Gofalwyr Ifanc

Gweithredu dros Blant / Action for children
Penffynnon
Hawthorn Rise
Hwlfordd
SA61 2AX
01437 761330

Cysylltwyr Cymunedol

36-38 Stryd Fawr
Hwlfordd
SA61 2DA
01437 769422

Eiriolaeth

Pobl yn Gyntaf, Sir Benfro
Tŷ Portcullis
Ffordd Old Hakin
Hwlfordd
SA61 1XE
01437 769135

Am wybodaeth / ymholiadau pellach Cysylltwch â'n Canolfan Gyswilt ar 01437 764551

Cwynion a Chanmoliaeth

Rydym bob amser yn ceisio cynnig gwasanaethau o ansawdd da ar gyfer pobl ifanc ond rydym yn gwybod ein bod weithiau'n syrthio'n fyr, a gwnawn ein gorau i ddatrys unrhyw broblemau cyn gynted ag y maent yn ymddangos.

Os ydych yn hapus/anhapus â'r gwasanaeth rydych wedi'i dderbyn, gallwch ein ffonio: 01437 764551

Email:

SocialCareComplaints@Pembrokeshire.gov.uk

Mae'r daflen hon ar gael mewn print bras, Easy Read, Braille neu fformatau iaith eraill.

Pontio Symud o Wasanaethau Plant i Oedolion



Mae'r daflen hon yn sôn wrthy ch am y newid mewn gwasanaethau y byddwch yn eu derbyn pan ddowch yn oedolyn.

Cyflwyniad

“Pontio” yw’r term a ddefnyddir am bobl sydd yn y cyfnod pan fônt yn nesáu at neu wedi cyrraedd yr amser pan fo pobl ifanc ag anableddau yn gadael ysgol ac yn dod yn oedolyn.

Efallai nad ydych yn siŵr o beth i’w ddisgwyl a pha gymorth sydd ar gael i gynllunio ar gyfer y dyfodol. Efallai eich bod yn ansicr o rôl gwahanol asiantaethau a’r gefnogaeth y gellir ei rhoi.

Beth yw’r Tîm Pontio?

Mae’r tîm yn cynnwys staff sy’n deall anghenion pobl ag anableddau dysgu, sydd â nam corfforol neu nam ar y synhwyrau

- Maen nhw’n gweithio gyda phobl ifanc rhwng 14 a 25 oed sydd wedi’u pennu i dderbyn gofal parhaus a gwasanaethau cefnogi pan fônt yn oedolion.
- Maen nhw’n cydweithio â phobl ifanc i asesu a ydynt yn gymwys i gael gofal cymdeithasol oedolion a gwasanaethau cefnogi, os nad ydynt wedi eu cael ynghynt.
- Maen nhw hefyd yn gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill.

Mae’r gwasanaeth Pontio yn cynnwys:

- Y Tîm Pontio
- Gwasanaethau Plant
- Gwasanaethau Addysg
- Partneriaeth â Rhieni

Sut allwn ni eich helpu chi?

Mae’r Gwasanaethau Cymdeithasol ar gael i bobl sydd angen ychydig help neu gefnogaeth i ymdopi â gweithgareddau a thasgau dydd i ddydd sy’n rhan o fywyd pob dydd, er enghraifft:

- Ymolchi a gwisgo
- Helpu gyda bwyta ac yfed
- Mynd allan a bod yn rhan o’r gymuned

Gellir rhoi cymorth i ofalwyr hefyd i’w helpu i gyflawni eu rôl

Pryd byddwn ni’n cwrdd â chi?

Ein nod yw cwrdd â chi unwaith y flwyddyn o leiaf yn ystod Adolygiad Blynyddol eich ysgol, o Flwyddyn 9 (14 oed). Fodd bynnag, gallwch gysylltu â ni i drafod newidiadau yn ystod y flwyddyn.

Adolygiad Blynyddol yr Ysgol

Nodau:

- Cadw golwg ar eich cynnydd
- Deall eich anghenion i’r dyfodol
- Rhoi cyfle i chi fynegi eich barn

Os bydd angen gwasanaethau arnoch ar ôl eich pen-blwydd yn 18, bydd angen i ni weithio gyda chi i sicrhau bod eich anghenion yn cael eu diwallu. Gallwn gwrdd â chi i weld beth yw eich anghenion penodol chi.

Gyda phwy rydyn ni’n gweithio:

Rydym yn gweithio gyda nifer o wahanol asiantaethau:

- **Iechyd**, yn darparu gwasanaethau priodol megis gwasanaethau therapi, timau iechyd cymunedol arbenigol ar gyfer pobl ag anableddau dysgu.
- **Addysg**, yn cynnwys ysgolion a cholegau arbenigol.
- **Cysylltwyr Gofal yn y Gymuned**, yn cefnogi pobl trwy arwain a chyfeirio. Trwy sgysiau ystyrion, mae Cysylltwyr Cymunedol yn darparu gwybodaeth am wasanaethau a gweithgareddau lleol a fyddai’n addas i ddiddordebau’r unigolyn ac yn ehangu eu rhwydweithiau cymdeithasol.
- **Asiantaethau cyflogaeth**, yn eich helpu i ddod o hyd i gyflogaeth ystyrion am dâl, amser llawn neu ran amser.
- **Opsiynau Tai** gallwn eich helpu yn eich opsiynau neu’ch dewis o dai.
- **Gwasanaethau Eiriolaeth** eiriolwr yw rhywun sydd wedi’i hyfforddi i wrando, fel y gallant eich cefnogi. Gallant siarad gyda chi, neu os dymunwch, ar eich rhan.